Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y CABINET**
a gynhaliwyd o bell trwy fideo-gynadledda **Dydd Mawrth, 15 Mawrth 2022**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 17 Mawrth 2022. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00 pm Dydd Iau, 24 Mawrth 2022 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 25 Mawrth 2022.

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Ray Quant MBE ac Alun Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Bryan Davies, Ceredig Davies, Keith Evans, Lynford Thomas ac Wyn Thomas.

(10.00am - 12.03pm)

**202 Ymddiheuriadau**

i) Ymddiheurodd Eifion Evans, y Prif Weithredwr, am y byddai'n hwyr yn ymuno â'r cyfarfod.
ii) Ymddiheurodd Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**203 Materion Personol**

i) Estynnwyd cydymdeimlad â theulu Dai Jones 'Llanilar' a fu farw'n ddiweddar. Talodd yr Arweinydd deyrnged i'w gyfraniad helaeth yn lleol ac yn genedlaethol.
ii) Estynnwyd cydymdeimlad hefyd â theulu Gethin Bennett, cyn Aelod Cabinet a Chadeirydd olaf Cyngor Sir Dyfed, a fu farw'n ddiweddar.
Cynhaliwyd munud o dawelwch er cof amdanynt.
iii) Llongyfarchwyd Sioned Davies, aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog ar ennill Aelod Hŷn y Flwyddyn a Cari Davies, aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Tregaron ar ennill Aelod Iau y Flwyddyn ar lefel sirol. Estynnwyd dymuniadau gorau i'r ddwy wrth iddynt gystadlu yn y gystadleuaeth Cymru gyfan a fydd yn cael ei chynnal yn fuan.
iv) Estynnwyd dymuniadau gorau i'r Arweinydd ar ei hymddeoliad. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad sylweddol a'i harweinyddiaeth dros y blynyddoedd.
v) Diolchodd yr Arweinydd i'r holl aelodau a swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod ei 10 mlynedd fel Arweinydd y Cyngor. Dymunodd yn dda i bawb ar gyfer y dyfodol gan gynnwys y Cynghorydd Bryan Davies fel Arweinydd newydd Plaid Cymru.

**204 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Datganodd y Cynghorwyr Ceredig Davies a Catherine Hughes fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 216, a gadawsant y cyfarfod tra'r oedd y mater yn cael ei drafod.

**205** **Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19**
Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad ar sefyllfa COVID-19. Esboniodd ei bod wedi gobeithio darparu diweddariad mwy cadarnhaol cyn i'w chyfnod fel Arweinydd ddod i ben, ond yn anffodus, mae cyfraddau wedi codi unwaith eto.

Cofnodwyd 113 o achosion drwy brofion PCR gan Iechyd Cyhoeddus Cymru heddiw, gan ddod â'r cyfanswm yng Ngheredigion i 11,942 o achosion ers dechrau'r pandemig. Lefel yr achosion ar hyn o bryd 296.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Y gyfradd bositifrwydd yn y Sir ar hyn o bryd yw 32.4% sydd hefyd yn gynnydd. Ymddengys mai dyma'r patrwm ledled Cymru ar hyn o bryd.

Nodwyd bod yr Alban ar hyn o bryd yn ailystyried eu cynlluniau i gael gwared ar yr holl gyfyngiadau COVID-19 oherwydd cynnydd mewn achosion. Eglurodd yr Arweinydd, yn seiliedig ar fodel rhagfynegi Prifysgol Abertawe, y rhagwelwyd y byddai cynnydd mewn achosion ym mis Mawrth, cyn y byddent yn gostwng unwaith eto ym mis Ebrill. Profion PCR yn unig sy'n cael eu cyfrif yn y ffigurau cyfredol ond pe bai profion LFT yn cael eu cynnwys, byddai cynnydd sylweddol a byddai'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn uchel iawn.

Adroddodd yr Arweinydd fod y cynnydd diweddar wedi dechrau effeithio ar ysgolion ac er bod pob ysgol ar agor, roedd 2 ddosbarth yn Ysgol Gynradd Bro Sion Cwilt ar gau ar hyn o bryd oherwydd salwch a phrinder athrawon cyflenwi.

Mae 2 gartref gofal o dan gyfyngiadau ar hyn o bryd.

Ailadroddodd yr Arweinydd y cyngor i gymryd profion yn rheolaidd a gwisgo masg lle bo angen.

**206** **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**
Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2022 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

**207** **Unrhyw ddeisebau a dderbynwyd**
Dim.

**208** **Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**
Dim.

**209** **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**
Dim.

**210** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol**

PENDERFYNIAD:

Cadarnhau enwebu'r sawl a enwir yn yr adroddiad yn gynrychiolydd yr Awdurdod Lleol ar Gorff Llywodraethol yr ysgol berthnasol.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

Er mwyn enwebu cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol.

**211** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Dogfen Egwyddorion a disgwyliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol Ceredigion gyda adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

i) Cytuno i fabwysiadu cynnwys y ddogfen Egwyddorion a Disgwyliadau ADY Ceredigion.
ii) Bod unrhyw sylwadau a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys fel gwelliannau i'r Cynllun, ac yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet er gwybodaeth.
iii) Bod adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn Egwyddorion a Disgwyliadau ADY Ceredigion yn cael ei gyflwyno i'r Ysgolion, a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet.
iv) Nodi'r adborth oddi wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

I gydymffurfio gyda gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018) Cymru.

**212** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Cynllun Gweithredu Eiddo Gwag**

PENDERFYNIAD:

Cytuno ar y Cynllun Gweithredu arfaethedig.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

Sicrhau gweithrediad effeithiol y Cynllun Gweithredu.

**213** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch Hybu Economi Ceredigion - Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2021-35**

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo fersiwn ddrafft Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

Er mwyn parhau i alluogi'r broses o roi'r Strategaeth Economaidd ar waith.

**214** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Dyfarniad Grant Cyfalaf Chwaraeon Cymru ar gyfer Pwll Nofio Aberaeron a Calon Tysul Cyf**

PENDERFYNIAD:

Cytuno:

1. Bod Cynnig Grant Chwaraeon Cymru o £280k mewn perthynas â chyllid cyfalaf ar gyfer Pwll Nofio Aberaeron a Calon Tysul Ltd yn cael ei dderbyn a bod y Cyngor yn gweithredu mewn rôl gyfryngol fel banciwr.
2. Bod y cynllun wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

Galluogi buddsoddiad Cyfalaf Gwerth £280,000 gan Chwaraeon Cymru ym Mhwll Nofio Aberaeron a Calon Tysul.

**215** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch Trefniadau Tâl y Crwner 2022/23**

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo'r cyfraddau tâl a ganlyn, mewn grym o 1af Ebrill 2022 i 31ain Mawrth 2023:

**1) Uwch Grwner rhan-amser:**

i) Cyflog Cadw o £21,120 y flwyddyn i gwmpasu cadw/argaeledd gwasanaeth y tu allan i oriau.
ii) Defnyddio'r gyfradd ddyddiol a gytunwyd o £465 i dalu cyflog blynyddol o £11,625 i'r Crwner gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant.
Cyfanswm: £32,745 y flwyddyn (ynghyd ag argostau).
iii) Costau swyddfa/lwfans cymorth busnes – £5,000 y flwyddyn.

**2) Crwner Cynorthwyol:**

Bydd y gyfradd ddyddiol yn:

- £397 am ddiwrnod llawn; a
- £199 am hanner diwrnod.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a Chylchlythyron JNC, lliniaru her a diogelu cronfeydd cyhoeddus.

**216** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2022-23 Llywodraeth Cymru**

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo mabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig – Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2022-23 Llywodraeth Cymru fel Rhyddhad Ardrethi Annomestig Dewisol o dan Adran 47 Deddf Llywodraeth Leol 1988.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

Er mwyn cefnogi busnesau lleol gan ddefnyddio'r cyllid grant sydd ar gael.

217 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf 2021/22 Chwarter 3**
Nodwyd yr adroddiad.

218 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw Rheoladwy 2021/22 Chwarter 3**
Nodwyd yr adroddiad.

219 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ar Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 2 2021-22**
Nodwyd yr adroddiad.

220 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ar Adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 2 2021/22**
Nodwyd yr adroddiad.

221 **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**
Diolchodd Eifion Evans, y Prif Weithredwr, i'r Arweinydd a'r holl aelodau am eu cyfraniad dros y blynyddoedd.

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________